

CANLLAW I CHAPERONIAID

Pa sgiliau sydd arnaf eu hangen?
Sut a lle mae cofrestru?
Beth yw fy nghyfrifoldebau?
Pa rannau o'r Rheoliadau y mae'n rhaid i mi wybod?
Beth yw cyfrifoldebau Deiliad y Drwydded?

Bwriad y canllaw byr hwn yw ateb rhai cwestiynau sylfaenol, ond ar adegau, bydd angen mwy o eglurder a dyfnder, yn enwedig yng nghyswllt y Rheoliadau, ac os felly, dylech gysylltu ag un o'r canlynol: eich awdurdod trwyddedu chaperone (Awdurdod Lleol), awdurdod trwyddedu'r plentyn (Awdurdod Lleol) neu'r awdurdod lle cynhelir perfformiad place (Awdurdod Lleol).

SGILIAU CHAPERONE AC AMDDIFFYN PLANT

Dywed y gyfraith fod 'y Chaperone yn gweithredu *in loco parentis* ac y dylai arfer y gofal "y gellid yn rhesymol ddisgwyl i riant da roi i'r plentyn hwnnw'.

- Bydd y plentyn yn gweithio mewn amgylchedd llawn 'oedolion' a bydd angen i chi allu gofalu eu bod yn deall beth a ddisgwylir ohono, gan ystyried ei oedran a'i brofiad.
- Rhaid i chi hefyd gadw mewn cof rychwant canolbwyntio plentyn, a bod yn ymwybodol o hyn, y ffaith y bydd yng nghlyw sgysiau oedolion, eu disgwyladau, pwysau cyfoedion a pherthynas gydag oedolion eraill yn y cynhyrchiad.
- Materion lechyd a Diogelwch ar y llwyfan neu'r set, h.y., polisi ysmegu, cyfarpar trydanol megis: lidiau, offer sain a chamerâu a all fod yn beryglus iawn. Ni ddylid gadael i blant 'chwarae'n wirion'.
- Efallai nad yw'r plentyn 'yn yr ysgol' ond nid yw hynny'n golygu fod yr oriau pryd mae'n yn cael ei diwtora yn llai pwysig na'r amser a dreulir yn yr ysgol (mae angen isafswm o 3 awr o diwtora ar ddiwrnod ysgol).
- Rhaid i chi allu dweud pryd mae'r plentyn yn wael, yn flinedig neu'n pryderu. Peidiwch ag anwybyddu plentyn er mwyn cwrdd ag amserlen y cynhyrchiad. Cofiwch nad 'oedolion bach' yw plant. Gall fod yn anodd iawn i blant gyfleu eu teimladau mewn modd y mae oedolion yn ddeall, felly chi fydd y cyfrwng rhyngddynt â'r cwmni cynhyrchu.
- Mae rychwant canolbwyntio plant yn fyrrach o lawer nac un oedolion (yn dibynnu ar eu hoed) felly mae arnoch angen y sgiliau i allu eu cadw'n ddi-ddig, neu ddefnyddio'r amser pan nad ydynt yn perfformio / cael eu tiwtora, sydd yn arbennig o bwysig wrth ffilmio ac ar leoliad. Gall hyn gynnwys gweithgareddau corfforol neu efallai y bydd y plentyn eisiau gwneud dim ond gorffwys a darllen llyfr yn dawel.
- Bydd angen sgiliau gwahanol wrth fod yn chaperone mewn theatr yn hytrach nac ar set neu leoliad ffilm. Mae llawer mwy o 'aros o gwmpas' yn ystod ffilmio, ac fe all y tywydd olygu bod y plentyn mewn carafán am gyfnodau go faith - cofiwch fod eu lefelau ynni hwy yn uwch o lawer na'n rhai ni, a gall y plant fod angen mwy o sylw unigol.
- Bwlio – rhaid i chi fod yn wastad yn ymwybodol o fwlio gan y gall fod yn beth cudd. Gall fod yn hawdd sylwi ar ymladd corfforol neu gic, ond nid yw mor hawdd yn wastad sylwi ar ambell air neu jôc

wedi ei gyfeirio, yn ddiniwed efallai, at un plentyn arbennig. Dylid gwasgu'r math yma o ymddygiad yn syth, neu fe allai effeithio ar y plentyn a'r cynhyrchiad.

☐☐ Oes gan y cwmni Bolisi Amddiffyn Plant? A Pherson Cyswllt Enwebedig gyda hyfforddiant neu brofiad mewn amddiffyn plant fel pwynt cyfeirio i'r staff a'r chaperoniaid? Holwch hwy, gwnewch ymholiadau

☐☐ Arfer Diogel. Dylai holl staff y cynhyrchiad, actorion, cast, criw a chaperoniaid (gan gynnwys gwisgwyr a phobl coluro) fod yn ymwybodol o'u hymddygiad pan fo plant o gwmpas. Dylid osgoi unrhyw gyswllt corfforol diangen, gan y gallai gael ei gamddehongli, naill ai gan y plentyn ei hun neu eraill. Byddwch yn synhwyrol, peidiwch â gadael plentyn ar ei ben ei hun gydag oedolion eraill na rhoi eich hun mewn sefyllfa fregus.

☐☐ Dylech sôn yn syth am unrhyw ymddygiad anarferol neu sy'n peri pryder gan blentyn ynghylch oedolyn sy'n aelod o'r cynhyrchiad neu un o'i gyfoedion wrth uwch-aelod o'r cynhyrchiad (neu berson a enwebwyd fel rhywun i amddiffyn plant) a lle bo hynny'n briodol, cyfeirio'r mater ymlaen at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mewn sefyllfaoedd difrifol, neu lle mae cyswllt yn anodd, galwch yr Heddlu!

☐ Os gwneir honiad yn erbyn aelod o'r cynhyrchiad, chaperone, cast neu gynorthwywr, bydd yn rhaid cael cydweithrediad llawn gan y sawl sy'n gyfrifol, yr aelod unigol o'r staff a'r awdurdod trwyddedu. Os bydd yr honiad yn ddifrifol, bydd angen atal yr aelod staff yn syth hyd nes y daw'r ymchwiliad i ben. Efallai y bydd angen eithrio o'r theatr/ystafelloedd ymarfer/lleoliad/set y ffilm etc. Y sawl y gwnaed yr honiad yn ei erbyn neu sicrhau nad ydynt yn dod i gysylltiad heb oruchwyliaeth gydag unrhyw blentyn.

☐☐ Yn olaf, cofiwch y dylai perfformio fod yn brofiad pleruser i'r plentyn ac i chithau. Mae sgiliau cyfathrebu a thrafod da yn hanfodol, boed gyda'r plentyn neu'r amrywiaeth o oedolion sy'n rhan o'r cynhyrchiad.

COFRESTRU

Rhaid gwneud **Cais am Drwydded Chaperone** i ALI yr ardal lle'r ydych CHI yn byw.

Mae ffurflenni cais ar gael os gofynnwch amdanynt. Unwaith i'r ffurflen gais gael ei derbyn, trefnir dyddiad cyfweiliad; caiff geirada ei wirio a chynhelir gwiriad GDA. Hefyd, rhaid i chi fynychu hyfforddiant Chaperone sydd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth sylfaenol o Amddiffyn Plant, a swyddogaethau a chyfrifoldebau Chaperone. Mae rhaglen dreigl o ddyddiadau hyfforddi trwy gydol y flwyddyn. Mae cost i Chaperoniaid Proffesiynol am eu gwiriad GDA ond ni chodir tâl ar unigolion sydd am weithredu fel Chaperone i blant yn wirfoddol.

NODER: Bydd angen gwneud gwiriadau GDA (Gwasanaeth Datgelu ac Atal) sy'n cael eu hanfon at y GDA (Asiantaeth o'r Llywodraeth) felly nid oes gan yr ALI reolaeth dros amser prosesu gwiriadau o'r fath. Os yw eich gwiriad datgelu yn foddhaol, bydd y GDA yn rhoi tystysgrif i chi a bydd angen i chi ddangos hon i'r ALI.

Unwaith i'r drwydded gael ei chyhoeddi, mae'n ddilys am 3 blynedd. CADWCH EICH TRWYDDED GYDA CHI BOB AMSER WRTH WEITHIO. EFALLAI Y BYDD YN RHAID I CHI BROFI EICH BOD WEDI EICH TRWYDDEDU.

CYFRIFOLDEBAU

Eich cyfrifoldeb CYNTAF yw i'r plentyn yn eich gofal. Tra byddwch yn gweithio fel chaperone, ni ddylech wneud unrhyw ddyletswyddau eraill. Cofiwch eich bod *in loco parentis* (ac eithrio pan fo'r plentyn yng ngofal tiwtor).

Eich cyfrifoldeb chi, ynghyd a Deiliad y Drwydded, yw sicrhau bod y Rheoliadau (ac unrhyw ofnion/amod ychwanegol a osodir ar y drwydded gan Awdurdod Trwyddedu'r plentyn neu'r Awdurdod Lleol sy'n archwilio) yn cael eu cynnal bob amser. Efallai y byddwch dan bwysau gan gwmni'r cynhyrchiad i lacio'r Rheoliadau oherwydd ail-amseru, ond rhaid i chi gofio mai eich dyletswydd gyntaf yw **gofalu am y plentyn**. Mae meddu ar wybodaeth dda o'r Rheoliadau, gwybod lle i fynd am help a chyngor, ynghyd â sgiliau trafod cadarn, oll yn elfennau hanfodol i fod yn chaperone da.

Cofiwch, os 'nad yw pethau'n iawn' a'ch bod chi yn gwrthwynebu, nid 'gwneud ffys' yr ydych. Y rheswm a'r disgwyliad pam y rhoddodd eich ALI drwydded chaperone i chi yw er mwyn gofalu am y plentyn a'i amddiffyn. Efallai eich bod yn ofni na fydd y 'cwmni' yn eich cyflogi eto? Yr ydym yn sylweddoli y gall hyn fod yn ofn gwirioneddol, ond ni ddylai drechu eich prif gyfrifoldeb, sef i'r plentyn/plant dan eich gofal. Cofiwch grybwyll unrhyw ddigwyddiad wrth eich awdurdod trwyddedu fel y gallant hwy godi'r mater gyda'r cwmni dan sylw. Fe wnawn eich cefnogi, ond mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni beth sy'n digwydd.

1. Dylech fod gyda'r plentyn bob amser, boed: ar ardal y set/llwyfan, ystafelloedd gwisgo, ardaloedd hamdden, prydau ac egwyl etc. Chi yw'r PERSON ALLWEDDOL y mae'r plentyn yn mynd ati/o am amddiffyn, eglurhad a chefnogaeth - rydych yn ALLWEDDOL i brofiad hapus o berfformio. Os yw'r cyfleusterau yn '*ddiffygiol*' CHI ddylai drafod gwell cyfleusterau gyda'r cynhyrchiad. Nid ychwanegiadau i gynhyrchiad yw plant: mae eu gofal yn flaenaf bob amser. Gallwch gael cefnogaeth ychwanegol gan y canlynol: yr ALI sy'n eich trwyddedu, yr ALI sy'n trwyddedu'r plentyn neu'r ALI y mae'r perfformiad yn digwydd yn eu hardal.
2. Gall chaperoniaid fod yn gyfrifol am uchafswm o 12 o blant yn unig (os yw'r unigolyn dan sylw yn athro/athrawes breifat y plentyn, mae hyn yn gostwng i 3); caiff ei ostwng yn sylweddol hefyd yn dibynnu ar oedran, rhyw neu anghenion arbennig y plant, etc. Ffactorau eraill y dylid eu hystyried yw'r lleoliad a chyfleusterau megis ystafelloedd gwisgo ac amseroedd perfformio'r plant unigol etc. Tra bydd yr ALI yn ystyried cymarebau addas yn ystod y broses o wneud cais, dylai Chaperone hefyd ofalu bod y cymarebau hyn yn briodol cyn ymgymryd â'r gwaith.
3. Efallai y bydd gofyn i blant deithio cryn bellter i gymryd rhan mewn perfformiad a dylai'r trefnwyr ganiatáu am hynny wrth osod yr amserlen ar gyfer pob diwrnod o'r perfformiad. Bydd yr ALI yn cymryd amser teithio i ystyriaeth ac, os bydd angen, yn gosod amseroedd cychwyn a gorffen gwahanol i blant yn ganiatáu am deithio fel amod trwydded. Fodd bynnag, dylai Chaperone fonitro hyn oherwydd y gall fod angen cytuno ar drefniadau ychwanegol os teimlir y bydd niwed i les y plentyn dan y trefniadau presennol.

Felly, gan ystyried lles y plentyn, gall fod yn fwy synhwyrol i gwmni cynhyrchu drefnu diwrnod perfformiad pob plentyn mewn blociau yr wythnos (yn hytrach na chael ambell ddiwrnod yma a thraw drwy'r wythnos) neu ddarparu llety yn nes at lle cynhelir y perfformiad yn hytrach na theithio am oriau bob dydd neu bob yn ail ddydd a mynychu'r ysgol rhwng yr amseroedd hyn. *Cofiwch y gall amserlenni gael eu newid os nad ydynt yn gweithio'n iawn. Os yw teithio yn broblem i'r plentyn a fyddai modd i chi godi hyn gyda'r cynhyrchiad a threfnu llety mewn gwesty?*

4. Byw ymaith o gartref - y Chaperone sy'n gyfrifol am y plentyn. Mae hyn yn cynnwys gweld fod llety'r plentyn yn foddhaol ym mhob ffordd, a bod y plentyn yn cael digon i'w ddiddanu yn ystod ei amser rhydd. Yn gyffredinol, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud mwy o oruchwylio na phetai'r plentyn yn byw gartref. Unwaith eto, os oes problemau yma na ellir eu datrys, cysylltwch ag ALI trwyddedu'r plentyn, neu'r ALI y mae'r perfformiad yn digwydd yn eu hardal.
5. Salwch neu anaf - ni ddylai'r plentyn berfformio o gwbl os nad yw'n iach. Os trewir plentyn yn wael neu y caiff ei anafu tra'i fod yng ngofal y Chaperone neu'r Tiwtor, rhaid cael cymorth meddygol a hysbysu'r rhiant /gwarcheidwad a'r ALI trwyddedu yn syth. Rhaid i chi fod â rhif cyswllt i'r rhieni o **hyd**.
6. Perfformiadau Peryglus – Rhaid awdurdodi'r rhain **cyn** cyhoeddi trwydded.

GWELER CYFRIFOLDEBAU DEILIAD Y DRWYDDED. Os ydych yn meddwl fod perfformiad yn beryglus a heb gael ei awdurdodi STOPIWCH, MEDDYLIWCH, YMGYNGHORWCH gyda'r cynhyrchiad a'i swyddog lechyd a Diogelwch. Os ydych o'r farn fod yr hyn y gofynnir i'r plentyn wneud yn dal yn annerbyniol **STOPIWCH** y perfformiad nes eich bod yn fodlon. Gall fod o help cael gair gyda'r ALI y mae'r perfformiad yn cael ei gynnal yn eu hardal, y swyddog lechyd Amgylchedd lleol, neu swyddog lechyd a Diogelwch y theatr/stiwidio. Bydd y cynhyrchiad yn gwybod pwy yw'r bobl hyn a bydd eu rhifau cyswllt ganddynt.

7. Dylai cofnodion fod ar gael gan y cynhyrchiad i swyddog sy'n ymweld o'r ALI. Chaperoniaid yn aml sy'n cael eu dynodi gan y cwmni i gadw'r cofnodion hyn yng nghyswllt y plentyn:-

Gweler tabl B Cofnodion i'w cadw gan ddeiliad y drwydded

RHEOLIADAU

□□ **Ymarferion** – Ymwneudâ pherfformiadau y mae'r Ddeddf, ond nid i ymarferion. Y mae'r Rheoliadau, fodd bynnag, yn effeithio ar ymarferion. Os byddant yn digwydd yn ystod cyfnod trwydded rhwng dyddiad cyntaf ac olaf perfformio) maent yn dod dan yr un cyfyngiadau ac amodau ag sy'n gymwys i'r drwydded honno, h.y., amser a lle'r perfformiad, amseroedd perfformio ac atyi. Mae ymarferion yn cyfrif hefyd fel perfformiad wrth weithio allan hyd yr wythnos waith, h.y., 6 diwrnod.

□□ **Addysg** – Rhaid i blant sy'n cael eu dysgu'n breifat fel rhan o'u trwydded gael o leiaf yr isafswm o ddysgu – sy'n cyfateb i dair awr y dydd ar gyfer pob diwrnod ysgol arferol a gollir. Fodd bynnag, mae modd cydgrynhoi hyn dros bedair wythnos (neu gyfnod cyfan y drwydded os yw hynny'n llai na phedair wythnos) i ganiatau peth hyblygrwydd o ddydd i ddydd, gydag isafswm o chwe awr mewn unrhyw un wythnos ac uchafswm o bum awr mewn unrhyw un diwrnod.

e.e. 5 diwrnod o berfformio: 3 awr x 5

diwrnod = 15 awr x 4 wythnos = angen 60 awr o ddysgu dros gyfnod o 4 wythnos.

□□ **Tiwtoriaid** – gall tiwtor ddysgu uchafswm o 5 o blant yn unig o wahanol lefelau ar yr un adeg. Os yw'r plant ar yr un lefel gallant ddysgu hyd at uchafswm o 12. Gall y tiwtor, yr ysgol a'r rhiant, trwy gysylltu ag ALI y plentyn (*disgresiwn yr ALI*), fynnu bod nifer llai o blant yn cael eu dysgu ar unrhyw un adeg. Dylai tiwtoriaid gysylltu'n agos ag ysgol y plentyn, yn enwedig lle bo absenoldebau maith o'r ysgol am ddigwydd, er mwyn gofalu y glynir at y cwricwlwm rhag i'r plentyn fynd ar ei hôl hi gyda'i astudiaethau. Cofiwch fod addysg y plentyn yn bwysig ac y gall amodau gael eu gosod ar Drwydded y plentyn, gan ALI y plentyn, er mwyn gwneud lle i ofynion addysgol y plentyn.

□□ **Doethineb y Chaperone** Os yw'r Chaperone yn fodlon fod ail-drefnu difrifol ar yr amserlenni wedi golygu y gofynnwyd i'r plentyn weithio y tu hwnt i'r amser a neilltuwyd a bod y Chaperone hefyd yn fodlon na fyddai lles y plentyn yn dioddef, gall y Chaperone ganiatau i'r plentyn barhau am 60 munud arall. Mae hyn ar yr amod nad yw cyfanswm y gwaith a wneir y diwrnod hwnnw yn uwch na'r hyn a ganiateir i blentyn o'i oed (**Gweler TABL B – Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau**). Pan ganiateir UNRHYW estyniad o'r fath, dylai'r Cynhyrchydd /Chaperone hysbysu'r ALI y mae'r plentyn yn gweithio yn eu hardal, naill ai ar yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol.

□□ **Gwaith nos** Er bod amser cychwyn cynharaf a gorffen hwyr (**Gweler TABL B - Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau**) caniateir i blentyn weithio yn y nos (hynny yw, ar ôl yr amser gorffen hwyr a chyn yr amser cychwyn cynharaf) os gwneir cais i awdurdod lleol y plentyn. Gan mai lles y plentyn sydd flaenaf, mae cyfyngiadau ar waith o'r fath. Mae unrhyw berfformio sy'n digwydd ar ôl hanner nos yn cyfrif fel rhan o'r amser perfformio a ganiateir ar y diwrnod blaenorol. **RHAID** i'r plentyn hefyd gael egwyl o 16 awr o leiaf cyn dychwelyd i'r lleoliad perfformio ar ôl gwaith nos, ac os gwna waith nos ar **2 noson yn olynol NI CHAIFF** wneud unrhyw waith nos pellach am O LEIAF wythnos arall (7 diwrnod).

GWYBODAETH YCHWANEGOL

❑ A oes gan y cwmni, fel y cyflogwr, Bolisi Amddiffyn Plant a pherson enwebedig gyda hyfforddiant neu brofiad amddiffyn plant fel pwynt cyfeirio i chaperoniaid, ac a all helpu i wneud cyfeiriad i'r adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol ar gyfer yr ardal lle mae'r perfformiad?

❑ Gall swyddog awdurdodedig o'r ALI y mae perfformiad yn digwydd yn eu hardal ar unrhyw adeg fynd i fan lle mae perfformiad, trwyddedig neu heb ei drwyddedu, y mae A.37 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 yn gymwys yn digwydd a gall wneud ymholiadau am unrhyw blentyn yr amheua sy'n cymryd rhan mewn perfformiad.

❑ Gall yr ALI ofyn am ba wybodaeth bynnag y teimlant sy'n briodol er mwyn penderfynu a ddylid caniatáu trwydded neu beidio. Gall ALI hefyd yn benodol wneud ymholiadau y tybiant hwy sy'n angenrheidiol i'w galluogi i benderfynu a ddylid caniatáu'r drwydded ar amod i warchod enillion y plentyn.

❑ Perfformiadau Peryglus. Ni ddylid hyfforddi unrhyw berson dan 12 i gymryd rhan mewn 'perfformiadau o natur beryglus'. Gall person 12 i 16 (plentyn dros oed ysgol gorfodol) gael ei hyfforddi i gymryd rhan mewn perfformiadau peryglus dan rai amgylchiadau. Dylai unrhyw berfformiad y gellid ei ystyried yn beryglus gael ei drafod gyda'r ALI cyn rhoi trwydded. Gall gwiriadau gael eu mynnu / trefnu rhwng yr ALI a'r ALI cyn cytuno y gall perfformiad o'r natur hwn ddigwydd. Gall hyn hefyd olygu archwiliadau gan adrannau lechyd Amgylchedd ac lechyd a Diogelwch.

❑ Gall amodau gael eu gosod ar Drwydded y plentyn gan yr ALI sy'n ei gyhoeddi (amseroedd, gwaith nos, tiwtora etc.) ynghyd â'r gofynion cyfreithiol dan y ddeddfwriaeth.

❑ Plant heb fod o'r DU yn gweithio ym Mhrydain. Dylid gwneud ceisiadau i'r ALI y mae'r ymgeisydd yn byw yn eu hardal neu lle mae ei fusnes (os nad oes sylfaen yn y DU, yna gellir gwneud cais i'r ALI lle cynhelir y perfformiad cyntaf) neu lle mae'r plentyn yn byw yn ystod cyfnod perfformiad. Rhaid i bob plentyn heb fod o'r DU gael ei drwyddedu i berfformio yn y DU.

❑ Rhaid i blant o'r DU sy'n perfformio dramor gael eu trwyddedu i wneud hynny trwy Lys yr Ynadon.

❑ Perfformiadau heb eu Trwyddedu. Gall plentyn o unrhyw oed gymryd rhan mewn perfformiadau heb eu trwyddedu ar 4 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 6 mis, ar yr amod y bydd yn cydymffurfio â'r oriau gweithio, gorffwys a bwyd a nodir yn y Rheoliadau. **Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys** os oes angen bod yn absennol o'r ysgol i alluogi'r plentyn i gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, nac os yw'r plentyn yn derbyn tâl am y perfformiad.

CYFRIFOLDEBAU DEILIAD Y DRWYDDED (YMGEISYDD)

Rhaid i'r cais gael ei wneud gan y person neu'r corff sy'n gyfrifol am drefnu, cynhyrchu neu redeg y gweithgaredd neu'r perfformiad y bydd y plentyn yn rhan ohono. Rhaid gwneud y cais yn ysgrifenedig i'r awdurdod lleol perthnasol o leiaf 21 diwrnod cyn bod angen y drwydded. Os rhoddir llai o rybudd, mae gan yr awdurdod yr hawl i wrthod rhoi trwydded ar y sail nad oes digon o amser iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau; mae'n **hynod annhebygol** y rhoddir trwydded os derbynnir y cais lai na phum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae angen y drwydded. Os rhoddir y drwydded, yr ymgeisydd fydd yn gyfreithiol gyfrifol am sicrhau yr atebir yr holl amodau a bod y plentyn yn cael ei ddiogelu'n iawn.

Noder. Cyhoeddir copi o drwydded y plentyn i'r ymgeisydd, yr ALI y mae'r perfformiad neu'r gweithgaredd yn digwydd yn eu hardal a rhieni/gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn.

❑ RHAID i gynrychiadau sicrhau fod Trwydded pob plentyn a chofnodion y Chaperone/Tiwtor ar gael ym mhob lleoliad perfformiad lle mae'r plentyn yn gweithio. Unwaith y bydd y cynhyrchiad yn gyflawn, mae'r cofnodion hyn i gael eu cadw gan Ddeiliad y Drwydded (yr ymgeisydd) am 6 mis o leiaf yn y cyfeiriad a roddir ar y cais am Drwydded (rhaid i hyn fod yn Brif Swyddfa ac NID cyfeiriad y lleoliad, h.y., cyfeiriad dros dro y cynhyrchiad mewn stiwdio neu leoliad) os bydd swyddog o'r AALI/ALI yn gofyn amdanynt yn nes ymlaen. **Gweler TABL A - 'Cofnodion i'w cadw gan ddeiliad y drwydded'**

❑ RHAID i gynyrchiadau ofalu y cynhaliwyd 'asesiad risg' lechyd a Diogelwch yn lleoliad y perfformiad:- polisi ysmegu ar y set ac oddi arni; rheoliadau / tystysgrif tân; person cyswllt cymorth cyntaf. Dylai pob staff, chaperone a phlentyn fod yn llawn ymwybodol o weithdrefnau gadael mewn argyfwng. Os na chewch wybod am y rhain - HOLWCH Gallwch gysylltu â'ch Adran lechyd Amgylchedd berthnasol am fwy o fanylion am lechyd a Diogelwch - Deddf Rheoli lechyd a Diogelwch mewn Gwaith 1999.

TABL A Cofnodion i'w cadw gan Ddeiliad y Drwydded

1. Y drwydded.
2. Y manylion isod am bob dydd y mae'r plentyn yn bresennol yn lleoliad y perfformiad neu'r fan ymarfer -
 - a) y dyddiad;
 - b) amser cyrraedd lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer;
 - c) amser gadael lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer;
 - d) amser pob cyfnod pryd y cymerodd y plentyn ran mewn perfformiad neu ymarfer;
 - e) amser pob egwyl gorffwys;
 - f) amser pob egwyl pryd bwyd; ac
 - g) amseroedd unrhyw waith nos a awdurdodwyd gan yr awdurdod trwyddedu
3. Lle gwnaed trefniadau ar gyfer addysg y plentyn gan athro neu athrawes breifat, dyddiad a hyd pob gwrs a'r pwnc a ddysgwyd

TABL B

Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau

**PLANT MEWN ADLONANT
CYFYNGIADAU YNG NGHYSWLLT POB PERFFORMIAD**

Pwnc	0 i 4 oed	5 i 8 oed	9 oed a hŷn
Uchafswm nifer yr oriau yn lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer (Rheol.24)	5 awr	8 awr	9.5 awr
Amseroedd cynharaf a hwyraf a ganiateir yn lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer (Rheol.23)	7am i 10pm	7am i 11pm	7am i 11pm
Uchafswm cyfnod o berfformio neu ymarfer cyson (Rheol.24)	30 munud	2.5 awr	2.5 awr
Uchafswm cyfanswm oriau o berfformio neu ymarfer (Rheol.24)	2 awr	3 awr	5 awr
Isafswm cyfnodau o egwyl am brydau a gorffwys (Rheol.25)	Rhaid i unrhyw doriadau fod am o leiaf 15 munud. Os yn lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer am fwy na 4 awr, rhaid i'r egwyl gynnwys o leiaf un toriad o 45 am bryd o fwyd.	Os yn bresennol yn lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer am dros 4 awr ond llai na 8 awr, rhaid iddynt gael un egwyl am bryd bwyd o 45 munud ac o leiaf un egwyl o 15 munud Os yn bresennol yn lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer am 8 awr neu fwy, rhaid iddynt gael y toriadau a nodir uchod, ac egwyl arall o 15 munud.	Os yn bresennol yn lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer am dros 4 awr ond llai na 8 awr, rhaid iddynt gael un egwyl am bryd bwyd o 45 munud ac o leiaf un egwyl o 15 munud Os yn bresennol yn lleoliad y perfformiad neu'r ymarfer am 8 awr neu fwy, rhaid iddynt gael y toriadau a nodir uchod, ac egwyl arall o 15 munud.
Addysg (Rheol.15)	D/GA	3 awr y dydd (uchafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, dysgu ar ddiwrnod ysgol yn unig. Isafswm o 6 awr mewn wythnos os yn cydgrynhoi dros gyfnod o 4 wythnos neu lai.	3 awr y dydd (uchafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, dysgu ar ddiwrnod ysgol yn unig. Isafswm o 6 awr mewn wythnos os yn cydgrynhoi dros gyfnod o 4 wythnos neu lai.
Isafswm egwyl rhwng perfformiadau (Rheol.25)	1 awr 30 munud	1 awr 30 munud	1 awr 30 munud
Uchafswm dyddiau			

yn olynol i gymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer (Rheol.28)	6 diwrnod	6 diwrnod	6 diwrnod
--	------------------	------------------	------------------

Noder: Dylai awdurdodau lleol ,gymryd sylw o Reoliad sydd yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu gyfyngu mwy ar yr oriau, toriadau hyn a ganiateir, a gosod amodau ychwanegol ar y drwydded os bydd hyn er lles y plentyn unigol.

CYRRAEDD Y LLEOLIAD

<ul style="list-style-type: none">• Cyrhaeddwch cyn y plant, yn enwedig os nad ydych yn gyfarwydd â'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi amser i chi edrych o gwmpas a chwrrd â'r bobl eraill sy'n rhan o'r digwyddiad.• Cyflwynwch eich hun i Ddeiliad y Drwydded neu ei ddirprwy ac unrhyw un arall perthnasol (h.y., rheolwr llwyfan/llawr, gwisgwyr, etc.).• Bwriwch olwg ar bob man lle bydd y plant yn ymweld, i nodi unrhyw beryglon.• Gwiriwch pa mor rhwydd yw gadael y dihangfeydd tân.• Dewch i wybod pa sŵn mae'r larwm tân yn wneud a threfnwch ymarferiad tân i'r plant.• Gwiriwch y cyfleusterau cymorth cyntaf a holi os oes Cymhorthydd Cyntaf cymwys ar y safle.• Gofalwch bod yr ystafelloedd gwisgo, toiledau, ystafell ddsbarth, ystafell orffwys, trefniadau prydau bwyd ac unrhyw gyfleusterau eraill yn addas.• Wrth wirio ystafelloedd gwisgo, cofiwch y dylai plant 5 oed a hyn wisgo yn unig gyda phlant eraill o'r un rhyw.• Cysylltwch ag unrhyw Chaperoniaid eraill a gyflogwyd, gan weithio fel tîm.• Mynnwch restr o enwau'r plant y byddwch yn gofalu amdanynt. Os oes mwy na 12 o blant rhaid i bob Chaperone fod yn siŵr pwy sy'n edrych ar ôl pa blant.	<ul style="list-style-type: none">• Gwiriwch drwydded perfformio pob plentyn a nodi unrhyw amodau sydd arno. Rhaid i gopi Deiliad y Drwydded fod ar gael yn y fan lle cynhelir y digwyddiad.• Gofalwch bod rhestr o fanylion cyswllt cartref ac argyfwng y plant y gallwch fynd ato bob amser rhag ofn y bydd angen i chi gysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad.• Gwiriwch gyda Deiliad y Drwydded i weld a oes gan unrhyw blentyn broblemau neu ofynion meddygol. Mae'r wybodaeth hon yn hollol gyfrinachol, ond fel Chaperone, mae angen i chi wybod. Os bydd plentyn yn cael ei daro'n wael, efallai y bydd rhywbeth nyn y nodiadau fydd yn rhoi rhyw syniad i chi o beth yw'r broblem. Os cymerir y plentyn i'r ysbyty neu os caiff ei weld gan feddyg, gall y ffaith fod plentyn yn cymryd meddyginiaeth gael effaith ar y driniaeth. Efallai y bydd yn rhaid i chi atgoffa plentyn i gymryd meddyginiaeth ar adeg benodol.• Os nad ydych yn hapus gydag unrhyw rai o'r cyfleusterau, dylech fynegi eich pryder wrth Ddeiliad y Drwydded a thrafod gwell amodau. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn llwyddiannus, rhaid i chi ystyried a ydych am adael i'r plant gymryd rhan yn y digwyddiad. Dan yr amgylchiadua hyn, rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod Lleol priodol cyn gynted ag sydd modd gyda manylion y broblem/problemau a'r camau a gymerwyd gennych.
---	--

RHESTR WIRIO – CYRRAEDD Y LLEOLIAD

Efallai y bydd o help i chi lungopïo'r dudalen hon i'w defnyddio ym mhob man lle byddwch yn gweithio.

	TIC
Gwnewch eich hun yn gyfarwydd â chynllun y lleoliad	
Nodwch bob man peryglus	
Sylwch lle mae'r holl allanfeydd tân	
Gofynnwch am gael clywed sŵn y larwm tân	
Trefnwch ymarferiad tân (gyda larwm) i'r plant	
Sylwch lle mae'r holl gyfleusterau cymorth cyntaf	
Archwiliwch yr ystafelloedd gwisgo (ar wahân i blant 5 oed a hŷn)	
Nodwch lle mae'r toiledau, a'u harchwilio	
Nodwch lle mae'r ystafelloedd gorffwys, a'u harchwilio	
Nodwch lle mae ystafell ddosbarth (os yn gymwys) a'i harchwilio	
Dysgwch beth yw'r trefniadau am brydau bwyd	
Gwirio cyfanswm nifer y plant	
Gwirio cyfanswm nifer y chaperoniaid	
Mynnwch restr o enwau'r plant	
Gwiriwch drwydded perfformio pob plentyn	
Gofalwch fod gennych rifau cyswllt cartref mewn argyfwng i bob plentyn	
Lle bo hynny'n berthnasol, gofalwch fod gennych fanylion problemau meddygol a/neu feddyginiaeth pob plentyn.	
Gofalwch fod pob plentyn yn cael ei lofnodi i mewn ac allan gan oedolyn awdurdodedig.	

Gwiriwyd gan: _____

Dyddiad: _____